Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher,11fed Rhagfyr 2024

Presennol
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, I Edwards, S Evans, P Jones, R Ashton, E Lewis a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - G Davies, B Jones a F Cauley

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau –

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 6ed Tachwedd
Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cae Cymunedol - Cynnigwyd troi y 'container' rownd a'i rhoi yn agosach at y sietyn pella er mwyn ymharu'n llai ar y golygfa i trigolion Maes yr Efail. Mae drws y bocs cyflenwad trydan wedi ei thorri, I Edwards i edrych arno fo
2. Cyfleusterau cyhoeddus - Dydy'r 'solenoid valve' dal ddim yn gweithio, S Reast i holi Buftons eto am diweddariad. Cafwyd cadarnhad fod y nawdd gan CS Powys yn mynd i gael ei ymestyn i cynnwys costau'r gwaith trydanol ond dydy'r swm terfynnol ddim wedi cael ei penderfyny eto
3. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Rydym dal yn aros am dyddiad gan Thomas Hughes i trefnu'r hyfforddiant.
4. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
5. Bainc yn Dolfach – Cadarnhawyd fod y gwaith wedi cael ei wneud
6. Baw cŵn – S Reast wedi cwrdd â plant Ysgol Llanbrynmair i drefnu creu posteri
7. Llwybr heibio Ysgoldy Talerddig angen giat – Cytynwyd rhoi cerrig ar y llwybr i lleihau'r baw a chwyn
8. Cefnogaeth ariannol am gwasanaeth cyfieithu – S Reast wedi gyrru anfoneb i Menter Maldwyn
9. Polyn fflag wrth y Canolfan Cymdeithasol – S Reast i danfon llythyr ac anfoneb i CS Powys
10. Coeden Nadolig – Diolch I B Jones, I Edwards, R Ashton a G Davies am gosod y goeden Nadolig
11. Sul y Cofio – Mae £80.73 wedi cael ei dalu i Help the Heroes
12. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont – S Reast i archebu'r arwydd i cael ei ariannu gan Cronfa Melinau Gwynt
13. Marwolaeth Meirion Jones – Cytynwyd i osod plac coffadwriaethol ar wal y ganolfan. S Reast i trafod gyda Rhys Bleddyn
14. Coeden Onen yn Maes yr Efail – S Reast i ysgrifennu at perchnogion yr Hen Efail

15. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – S Reast wedi cael y cyfeiriad anghywir ac angen gwneud yr adroddiad i BT/Open Reach eto
16. Arwydd am y toiledau ar y B4518 – S Reast i drafftio cynllyn
17. Grit a halen – S Reast i edrych am costau biniau newydd
18. Creu arwyddion ar gyfer y ffordd rhwng Bont a Talerddig – Ffermwyr i cyfrannu lids bwcedi, S Reast i cydlynu gwaith creu arwyddion dros dro
19. Ochrau ffordd Pandy yn Bont yn disgyn – S Reast i adrodd i CS Powys
20. Cyflymder traffig trwy Llanbrynmair – Cynnigwyd gofyn i GoSafe am benthyg camera
21. Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan – S Reast i ysgrifennu at perchennog Ael y Bryn
22. Brigiau o tocio sietyn yn achosi difrod i teiars – Does yna ddim rheolau i contractwyr yn eu gorfodi i chwythu'r brigiau oddi ar y ffordd er fod rhai yn gwneud hyn. Yn y gorffenol cafwyd y gwaith ei wneud yn gynharach yn a flwyddyn pan oedd y tyfiant yn feddalach ond rwan mae'n rhaid aros tan mis Medi i amddiffyn yr adar
23. Sietyn rhwng y garej a Pont Brics – mae'r gwaith tocio wedi ei gwneud

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Gridiau gwartheg – Talerddig, Cwm Nant yr Eira a Cwm Calch	Ie	Grid wrth y Fron wedi ei wneud. Cafwyd cwyn fod ffarm y Fron heb cael rhybydd o'r gwaith oedd yn ymharu ar ei mynediaid
Cyflymder ceir trwy Bont	Ie	Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif a'u adrodd i'r heddlu
Arwydd 'Give way' yn Bont a cerrig ar y ffordd		Mae un arwydd ar goll a'r llall wedi ei troi. Mae CS Powys wedi bod yn gweithio ar y ffosydd i cadw'r dŵr a'r llanast oddi ar y ffordd

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder traffig yn Nhalerddig	Ie	Cafwyd cyfarfod ar y safle gyda cynrichiolwyr Asiantaethau Ffyrdd. Cyflwynwyd nodiadau i'r Cynghowrwyr Gyfynwyd am goleuadau stryd ar y briffordd

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Islaw Bryn Coch	Ie	Coed wedi eu thocio ond dim ond i 5 troedfedd o uchder. Sylw wedi ei addo
Llan Hen Siop	Ie	LLN06 Angen caniatad ysgrifenedig gan y perchenog
Llan	Ie	LLN05 wedi torri
Canol y pentref	Ie	Goleuadau dal ymlaen o hyd

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Gwasanaeth Gwell Gofal Seiliedig ar y Ffyrdd Newydd Arfaethedig ar gyfer Rhannau Anghysbell, Gwledig ac Arfordirol Cymru – Cerbydau ychwanegol i gefnogi'r gwasanaeth ambiwlans ac i llenwi'r bwlch yn absenoldeb yr ambiwlans awyr
- Rôl Llysgennad Cymunedol, Gwasanaeth Tân ac Achub – I Edwards i ystyried cynrichiolaeth

Cynllunio

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 22/11/24

Cyfrif Cyfredol	£6,488.16
Cyfrif Cadw	£2,956.56
Cyfanswm	£9,444.72
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£9.444.72

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
11/12/24	Cyflog y Clerc - Tachwedd	£397.60	Cytunwyd
11/12/24	Treth ac NI ar cyflogau Hydref	£141.40	Cytunwyd
11/12/24	S J Ashworth – Glanhau Toiledau	£168.00	Cytynwyd
11/12/24	R A Hughes – Cyfieithu	£120.00	Cytynwyd
11/12/24	Archwilio Cymru	£200.00	Cytynwyd
11/12/24	Border Janitorial Supplies	£68.00	Cytynwyd
11/12/24	Torch Sul y Cofio	£24.49	Cytynwyd – I talu i S Reast

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- E Lewis – Dŵr ar ffordd fawr rhwng Pentremawr a Gwern y Bwlch
- R Ashton – Cyflwr ffordd Pont Brics
- D Jones – Iard y Cyngor
- I Edwards – Cysylltiadau ffôn pan fydd trydan yn mynd i ffwrdd

Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 8fed mis Ionawr 2025

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair